In regards to domiciliary care services:

Does the Cabinet Member believe that vulnerable adults are being adequately cared for by the companies that are providing domiciliary care services on behalf of the authority?

Our highest priority has always been the care and wellbeing of our citizens, the new providers were awarded contracts based on their ability to deliver quality care that puts the service users' needs first. We will continue to monitor the progress of our new providers, and ensure that the delivery of care is not just adequate, but of the highest standard. We have experienced some challenges with delivery in particular parts of the county as members have previously been advised; the Adult Safeguarding Team, Social Work teams and the Provider along with the Project Team have worked hard to address all concerns of vulnerability and each individual situation has been followed up.

Can the Cabinet Member provide details of the Independent review that is proposed to investigate what went wrong with the transfer of the Council's adult domiciliary care service?

Officers are currently developing a draft brief in relation to commissioning an independent review. We will continue to consult with key stakeholders including our service users, scrutiny members, Welsh Government and CSSIW on the development of the review and time frame. We will also continue to improve our services on the lessons already learnt to date.

Is the Cabinet Member confident that TUPE arrangements in regards to staff transferring from previous providers to Reach and Abacare are being correctly adhered to?

During the transfer phase, the council and our new partners informed all outgoing providers of TUPE arrangements. During recruitment, adverts were also placed in local newspapers informing staff of their TUPE rights including the offers of both zero and 16hr contracts. We are aware that there were delays with some outgoing providers informing their staff of TUPE arrangements to incoming providers, and that our new providers sought their own legal advice in this respect. Our new providers are committed to ensuring that they recruit sufficient staff to meet their contractual obligations and that all staff will go through robust induction and training in order that staff can work to the highest standard to ensure we can deliver high quality and cost effective services.

There was no supplementary question.

15.18 Question to the Portfolio Holder for Highways and Environmental Health from County Councillor Russell George

Can the Cabinet member provide an update on how the authority is carrying out enforcement?

The council of 5th March 2014, agreed "that the Council holds a full review of civil enforcement powers by the relevant Scrutiny Committee and also extends the powers relating to dog fouling to CEO's to combat the issue of dog fouling across the county". Please can the cabinet member provide an update on the progress of this?

(a) The Authority has continued to carry out enforcement through the Environmental Health Team with practical support from LE staff (cleaning, signs, bins) when required.

(b) The issue of dog fouling has been considered by:

- the Environment, Infrastructure and Crime and Disorder Scrutiny Committee on 13th March 2014 when the County Council's intentions were noted alongside a response to the Community Safety Partnership. An outcome of the meeting was the establishment of a working group, comprising three Members, to commence the review. [Cllrs. Viola Evans (Lead), Arwel Jones and Dai Jones];*

- *the Enforcement of Dog Fouling Working Group which met on 26th March 2014 and the outcomes of that meeting were notified to all Members, primarily to assess the extent of local problems and whether reports were being made;*
- *the Joint Chairs and Vice Chairs Steering Group – Scrutiny, Audit and Democratic Services Committees, which considered feedback from the Working Group on 16th May 2014 and determined that the Group's remit should extend to considering the impact of dog fouling controls on current enforcement activity;*
- *the Enforcement of Dog Fouling Working Group met on 4th June 2014 to receive a presentation from Keep Wales Tidy and to review issues arising from the Steering Group's recommendations;*
- *the Environment, Infrastructure and Crime and Disorder Scrutiny Committee on 5th June 2014 when it considered [item 8.3] a progress report.*

Please can the Cabinet Member inform me if the authority has contacted Dyfed Powys Police to discuss the possibility for Police Officers and Community Police Support Officers, to be given authority to enforce Fixed Penalty Notices and if so, what was the outcome of this discussion?

The recent progress report noted that the police want this issue to be dealt with on a common basis across the force area. The Scrutiny Committee has agreed that the Police Commissioner should be contacted in support of PCSOs undertaking enforcement duties.

I am aware that other local authorities have contracted external organisations to enforce Fixed Penalty Notices. I am advised that the cost to the County Council can be negated by the income received from Fixed Penalty Notice fines. Has the Cabinet Member considered contracting external organisations to enforce Fixed Penalty Notices for the problem of dog foul and litter?

External organisations could undertake enforcement though it has not been established that the likely income would meet the enforcement costs. The Working Group will no doubt consider this aspect as part of their review.

There was no supplementary question.

15.19 Question to the Portfolio Holder for Finance from County Councillor Gary Price

How much has been allocated in this year's budget for the Montgomeryshire Concurrent Functions Scheme?

The sum allocated for the Montgomeryshire Concurrent Function scheme in 2014-15 is £95,250.

In answer to Councillor Price's supplementary question whether the Montgomeryshire Concurrent Function Scheme budget be subject to an efficiency saving if not would the scheme be introduced to Brecknockshire and Radnorshire, the Portfolio Holder advised that this budget would be subject to an efficiency saving, as would the budgets for the services in Brecknockshire and Radnorshire.

15.20 Question to the Leader and Portfolio Holder for Waste from County Councillor Aled Davies.

What options, including cost, do Powys County Council offer village halls to dispose of their rubbish?

The legislation (Controlled Waste Regulations 2012) states that where a premise such as a village hall is used wholly or mainly for public meetings, they are classed as household and will receive the standard collection service (including limitations on residual waste). If, however, village halls are used for events, which many are, they are classed as commercial and will be charged as any other commercial premises. The current trade waste and recycling charges are attached.

In answer to Councillor Davies' supplementary question, the Leader said that he could not give a commitment that there would not be further increases in charges.

15.21 Question to the Portfolio Holder for Communications and ICT from County Councillor Kathryn Silk

Further to my question to Council on 30th April, can the Cabinet Member for Communications and ICT give details of how many breaches of data protection occurred within the Planning Department during 2013/14?

In the financial year 2013/2014 there were two instances of a breach of personal data within the Planning Department of the Council; following personal data being disclosed via the Council's web site.

The personal data disclosed was not considered sensitive under the terms of the Data Protection Act 1998.

Both instances were investigated, and information legislation training specific to the services was provided to Managers within the Regeneration Property and Commissioning Directorate.

On both occasions the lessons learnt were incorporated into the development of new processes in the way that personal data is identified and handled when being placed on the Council's web pages.

Powys County Council continues with the development and implementation of robust information governance practices and the lessons learnt from information security incidents inform our further development.

A key element of these information governance practices is the mandatory training in Data Protection, ICT, and Information Security for all staff processing personal data as part of their duties. Current training figures stand at 99%.

Staff's understanding of their responsibilities towards the handling of personal data is evidenced in their compliance with the robust processes in place to identify and manage information security incidents.

Earlier this year auditors for the Information Commissioner's Office determined that Powys County Council demonstrates a reasonable level of assurance that process and procedures are in place and are delivering data protection compliance.

Based on information governance practices implemented and those which continue to be developed it can be considered that the Council is actively developing systems to safeguard compliance with information legislation, including the reporting and management of Information Security Incidents.

There was no supplementary question.

15.22 Question to the Portfolio Holder for Communications and ICT from County Councillor Kathryn Silk

Can the Cabinet Member for Communications and ICT give details of the Council's policy in respect of responding to correspondence. What percentage of correspondence has been answered within the specified period during the last period for which figures are available?

Details of the Council's policy for responding to correspondence are set out in the reply to Councillor Russell George's question.

The statistics for the period 1st April 2013 to 31st March 2014 are filed with the signed minutes.

15.23 Question to the Portfolio Holder for Affordable Housing from County Councillor Kathryn Silk

Can the Cabinet Member for Planning give details of how many affordable housing units have been approved for each year since 2011? What percentage of total housing approved does this represent?


Unfortunately it is not possible to supply these figures as requested. However, as a result of the Development Management Improvement Implementation Board, the Development Management service has recently installed the Northgate ICT software to record this information. The introduction of the Sustainable Development Indicators (SDI), introduced as of December 2013, will enable this information to be provided in future.

The graph below shows the number of Affordable Housing units approved verses the total housing units approved for the last four months of the 13/14 financial year (Dec – March) when 14 Affordable Units were approved out of 139.

Development Management would be able to provide the information requested by going through all Planning Applications where affordable housing has been granted Approval, for each of the years in question. For example, the figure relating to the last financial year (12/13) would mean assessing some 1013 applications, identifying the number of approved Affordable Dwelling units and comparing this with the total amount of dwellings that were approved in the period.

It might be helpful if I remind Members of a recent report presented to the Strategic Housing Partnership with the following information in relation to the Affordable Housing Delivery programme:-

Projection: Having now received reports from our Housing Association partners a projection of completion dates gives us the following information: by August 2014 Mid-Wales HA will complete 45 homes at Welshpool and 5 at Churchstoke and Melin Homes will complete 4 at Talgarth and 10 at Llangynidr. These completions alone will take us to 258 affordable homes provided in the One Plan period, a 29% over-target achievement. It should also be noted that the coming year will see, almost certainly, a further 45 PSH empty homes rented at affordable levels; and finally that the on-going SHG programme will see a further 229 completions between now and the end of the 2015/16 financial year.



15.24 Question to the Leader and Portfolio Holder for Waste from County Councillor David Meredith

In view of the rise in fly tipping within Communities can we be advised of how many people have been caught and, of those, how many have been prosecuted?

Waste Services generally deal with the more minor incidences of fly tipping, for example around Community Recycling Sites and next to Communal Collection Points. When we can find evidence, for example an address on an envelope, we do write to the alleged offender under Section 33 of the Environmental Protection Act 1990. In 2013/14, we sent out 60 such letters but none of these led to a prosecution.

Environmental Health deal with incidents on private land but similarly have not prosecuted anyone. Major incidents are dealt with by Natural Resources Wales.

In answer to Councillor Meredith's supplementary question on whether it was time to start issuing penalty notices, the Leader said that he would consult with officers as to whether the policy needed to be amended.

15.25 Question to the Portfolio Holders for HR and Finance from County Councillor David Meredith

Now that Job Evaluation has been implemented did the pot of money set aside for its implementation cover the total cost or did some services of the Authority suffer as a result of insufficient money being allocated for this purposes? If this was the case how were those services selected?

The budget set aside for JE was adequate (the grading structure was designed within budgetary constraints). However it was made clear to services from the outset of the JE project that they needed to ensure that the role descriptions submitted for evaluation were as accurate as possible as any additional costs associated with successful appeals would need to be borne by the services as they had not been budgeted for. The additional costs of successful appeals was approximately £800k.

In his supplementary question Councillor Meredith queried how the grading structure was designed within budgetary constraints when job descriptions were being assessed. Council was advised that JE had been achieved within budget and through a collective agreement with the trade unions.

15.26 Question to the Portfolio Holder for Education and Children's Services from County Councillor David Meredith

In view of the fact that current legislation is not preventing the continued exodus of parents taking their children out of school during term time what is the Authority doing to address this issue with ESTYN and Welsh Government?

As a member of the South West and Mid Wales Consortium (ERW), the region is developing a strategy for improving attendance. This includes a policy on fixed penalty notices which will be circulated to schools in the region in the Autumn Term.

Councillor Meredith welcomed the response and asked that Head Teachers be supported. The Portfolio Holder advised that the ERW policy was robust and that families who took their children out of school needed to be challenged.

15.27 Question to the Portfolio Holder for HR from County Councillor Gareth Ratcliffe

Can the portfolio holder for HR brief the council on the direction of travel for jobs in Powys County Council following the BBC News report headed "Big job cuts if budgets keep shrinking, warn councils" where the leader of the WLGA stated "if we are seeing this scale of reduction, unfortunately the biggest cost pressure, our biggest cost, are employees".

The council has reduced the number of posts by 215 in the current budget and further changes are underway. Given the requirement to save approximately £70m by the end of the decade it is inevitable that the size of the workforce will continue to reduce. However we are actively seeking other savings measures such as reviewing third party expenditure in order to minimise the impact on front line services and staff.

The Portfolio Holder declined to answer Councillor Ratcliffe's supplementary question on negotiations with the trade unions as he did not think that it was appropriate to do so in an open meeting.

15.28 Question to the Leader and Portfolio Holder for Waste from County Councillor David Jones

What is the council's position on collecting recyclables from the curtilage of domestic properties since the advent of the new recycling vehicles?

There has been no change in the Council's position. We request that residents place their recycling boxes and wheeled bins at the curtilage of their property by 7:30am on their day of collection. There are of course exceptions to this with communal collection points and where residents are on the assisted collection scheme.

In his supplementary question Councillor Jones asked if residents who had their waste collected by Cae Post had been given different instructions. The Leader said he would follow this up with officers.

15.29 Question to the Portfolio Holder for HR from County Councillor David Jones

What is the council's current policy on re-employing former members of staff who have retired? Can he envisage circumstances where they might return?

The Council does not have a policy that deals with the re-employment of former employees who have retired but is exploring the value and appropriateness of introducing a policy that deals with the re-employment of former employees generally.

There are circumstances where I would envisage a retired ex-employee being re-employed by the Council. It is highly unlikely that this would be in the previous role and on the same terms. Re-employment is more likely to occur into roles and on terms that better suit the lifestyle of a retiree. It will of course be recognised that ex-employees are commonly Powys residents and contribute to its economy. They are also likely to retain skills and experience that are valuable to the Council and may also be scarce in the local employment marketplace.

In answer to Councillor Jones' supplementary question, to consider introducing a policy to stop retired members of staff from being re-employed, the Portfolio Holder said that to do so would cause particular difficulties for schools many of whom employed retired staff as supply teachers.

15.30 Question to the Leader from Councillor David Jones

Could the Leader provide an update on renewal of the congress system for the council?

Officers have been asked to look at the cost of updating the microphones in the Chamber and Committee Room A at County Hall, the Chamber at Neuadd Maldwyn and the Committee Room in Neuadd Brycheiniog. The Cabinet have also asked that Scrutiny look at the requirements for a new system.

In answer to Councillor Jones' supplementary question as to why Scrutiny had been asked to look at this when Council had approved the budget, the Leader explained that this was a very expensive scheme and he wanted to be sure that all members were happy with the system that had been proposed.

RESOLVED to exclude the public for the following items of business on the grounds that there would be disclosure to them of exempt information under category 1 of The Local Authorities (Access to Information) (Variation) (Wales) Order 2007).

15.9 Question to the Portfolio Holder for HR from County Councillor Gary Price

The answer to the question had been tabled. (Copy filed with the signed minutes). There was no supplementary question.

**L.R.E. DAVIES
CHAIR**

**COFNODION Y CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWDYD YN
NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD
DDYDD MERCHER 16^{EG} GORFFENNAF 2014**

YN BRESENNOL: y Cynghorydd Sir L.R.E. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander, P.J. Ashton, D. Bailey, G.R. Banks, G. Bowker, R.G. Brown, L.V. Corfield, K.W. Curry, A.W. Davies, C. Davies, D.E. Davies, E.R. Davies, S.C. Davies, M.J. Dorrance, D.O. Evans, V.E. Evans, W.J. Evans, L. Fitzpatrick, R.I. George, M.R. Harris, S.M. Hayes, A. Holloway, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, D.C. Jones, D.R. Jones, E.M. Jones, Mrs E.M. Jones, G.M. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, F.H. Jump, H. Lewis, P.E. Lewis, M.C. Mackenzie, D.J. Mayor, S. McNicholas, P.J. Medicott, D.W. Meredith, R.H. Mills, E.T. Morgan, G. Morgan, J.G. Morris, W.J.T. Powell, W.D. Powell, D.R. Price, G.D. Price, P.C. Pritchard, G.W. Ratcliffe, K.M. Roberts-Jones, J.G. Shearer, K.F. Tampin, A.G. Thomas, D.A. Thomas, D.G. Thomas, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.J. Van Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams, G. Williams, J.M. Williams, S.L. Williams ac A. York.

1.	YMDDIHEURIADAU	CC62 – 2014
-----------	-----------------------	--------------------

Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth y Cynghorwyr Sir J.H. Brunt, M.J.B. Davies, S. Davies, P. Harris, E.A. Jones, J.R. Jones, K.S. Silk a T.G. Turner.

2.	DATGAN BUDDIANT	CC63 – 2014
-----------	------------------------	--------------------

Datganodd yr holl Aelodau oedd yn bresennol fuddiant personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â Lwfansau a Threuliau Aelodau yn unol â pharagraff 12 (2) (b)(iv) o'r Cod Ymddygiad.

Hysbyswyd yr aelodau bod y Rhybudd o Gynnig yn gysylltiedig â dileu TB wedi ei dynnu'n ôl, ac felly nad oedd yn rhaid i'r rhai a oedd â chysylltiadau â ffermio gwartheg llaeth ac eidion ddatgan buddiant tan y cyfryw adeg pan gaiff y cynnig ei ailystyried.

Datganodd y Cynghorydd Sir G.P. Vaughan fuddiant personol ac oedd rhagfarnu yn y Polisi Euogfarnau ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

3.	COFNODION	CC64 – 2014
-----------	------------------	--------------------

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30^{ain} Ebrill, 2014 fel cofnod cywir yn amodol ar gynnwys y datganiad o fuddiant a wnaed gan y Cynghorydd Sir D.H. Williams yng nghwestiwn 12.8 ar ADY ynghyd â nodyn ei fod wedi gadael y cyfarfod tra trafodwyd y mater. Awdurdodwyd y Cadeirydd hefyd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14^{eg} Mai a 27^{ain} Mai 2014 fel cofnodion cywir.

4.	CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD	CC65 – 2014
-----------	---------------------------------	--------------------

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion am rai o'r digwyddiadau'r oedd wedi eu mynychu. Atgoffodd yr Aelodau y byddai ei wasanaeth dinesig yn cael ei gynnal ar 17^{eg} Awst ac y byddai'n cynnal nifer o dderbyniadau yn Sioe Frenhinol Cymru.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n cynnal derbyniad ar gyfer busnesau bach yn Sioe Frenhinol Cymru. Diolchodd i'r Cyngorydd Sir Stephen Davies am ei wasanaeth yn y Cabinet a mynegodd ei gydymdeimlad wrth y Cyngorydd Davies ar farwolaeth ei fam.

Gofynnwyd i'r Deilydd Portffolio Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd i gysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd i gael gwared â'r gwaith ffordd cyn dechrau'r Sioe Frenhinol.

Atgoffodd y Cyngorydd Sir David Price y Cyngor mai Sir Faesyfed oedd y sir groesawu gan longyfarch y pwyllgor sir am ei waith yn paratoi ar gyfer y Sioe. Dymunodd bob llwyddiant iddynt ar gyfer yr wythnos.

5.	BRIFF Y PRIF WEITHREDWR	CC66 – 2014
-----------	--------------------------------	--------------------

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Cyngor yn defnyddio'r Sioe i hybu twristiaeth a Phowys fel sir ar gyfer digwyddiadau.

Nododd y cafwyd digwyddiad cyhoeddi llwyddiannus iawn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2015 ym Meifod. Byddai'r Cyngor yn cael ei gynrychioli yn Eisteddfod Genedlaethol 2014 yn Llanelli a byddai unwaith eto'n defnyddio'r digwyddiad i hyrwyddo'r sir fel cyrchfan i dwristiaid.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Cyngor am y datganiad a wnaed gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn dweud y byddai setliad cyllideb 2015/16 yn rhwng -1.5% a -4%. Roedd y Cabinet a'r Tîm Rheoli yn paratoi cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ar y gyllideb yn y gymuned yn ystod wythnos olaf mis Medi ac wythnos gyntaf mis Hydref.

Clôdd y Prif Weithredwr ei sylwadau drwy ddiolch i'r Pennaeth Ysgolion, i'r tîm addysg o Gyngor Sir Ceredigion a'r staff mewn ysgolion am eu gwaith yn sicrhau gwelliannau i'r Gwasanaeth addysg fel nad yw Estyn bellach yn dyfarnu bod angen ei wella'n sylweddol.

6.	ARGYMHELLION GAN BWYLLGORAU	CC67 – 2014
-----------	------------------------------------	--------------------

6.1 Trosglwyddiadau yn y Gyllideb

Ystyriodd y Cyngor argymhellion cyfarfod y Cabinet ar 17^{eg} Mehefin 2014 mewn perthynas â throsglwyddiadau o dros £300,000 yn y gyllideb.

PENDERFYNWYD	Rheswm am y penderfyniad
Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir yn yr atodlen gyda'r cofnodion llofnodedig.	Fel sy'n ofynnol dan y rheolau sefydlog ariannol.

6.2 Polisi Euogfarnau ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

Fe wnaeth y Cynghorydd G.P. Vaughan ddatgan buddiant personol a rhagfarnllyd yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra roedd yn cael ei hystyried.

Ystyriodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy a gynhaliwyd ar 26^{ain} Mehefin 2014.

PENDERFYNWYD:	Rheswm am y penderfyniad:
Mabwysiadu'r Polisi Euogfarnau ar gyfer Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Banel Arbenigol Trwyddedu Cymru gyfan.	Drwy fabwysiadu'r polisi, rhoddir arweiniad i Aelodau ar sut ddylent ystyried ymgeiswyr gydag euogfarnau a bydd yn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau Cymru sydd wedi mabwysiadu'r polisi.

7.	FFRAMWAITH ADRODD BLYNYDDOL Y CYNGOR	CC68 – 2014
-----------	---	--------------------

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol – Pobl ei hadroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol am y cyfnod 1^{af} Ebrill 2013 i 31^{ain} Mawrth 2014. Cyflwynai'r adroddiad fanylion am gyflenwi, perfformiad a risgiau yn ogystal ag am gynlluniau ar gyfer gwella ar holl swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai'n cael ei ddefnyddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i hysbysu eu gwerthusiad annibynnol o Bowys a'u cynllun arolygu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Talodd y Cyfarwyddwr Strategol deyrnged i'w staff am eu gwaith yn cyflenwi gwasanaethau.

Nododd y Cyngor yr amcanestyniadau poblogaeth a ragwelai gynnydd o 169% yn nifer y bobl dros 85 oed erbyn 2036 a'r heriau a fyddai'n dod yn sgil hynny, yn enwedig yng ngoleuni toriadau pellach i'r gyllideb. Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi bod yn trafod hyn gyda'i gydweithwyr o awdurdodau gwledig eraill fel eu bod yn gallu bod yn unedig wrth lobio Llywodraeth Cymru am adnoddau ar gyfer gwasanaethau.

PENDERFYNWYD	Rheswm am y penderfyniad
Cymeradwyo adroddiad y Cyfarwyddwr.	Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i lunio adroddiad blynyddol.

8.	PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL A GYMERADWYWYD GAN Y SWYDDOG MONITRO	CC69 – 2014
-----------	--	--------------------

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol i bwyllgorau a wnaed gan y Swyddog Monitro dan y pŵer dirprwyo cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor ar 16^{eg} Mai 2013:

Mae'r Cynghorydd Sir Avril York yn cymryd lle'r Cynghorydd Sir Jeff Holmes ar Gorff Llywodraethol Coleg Castell-nedd Port Talbot.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Joy Jones i'r Pwyllgor Craffu – Pobl.

9.	DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD	CC70 – 2014
-----------	------------------------------------	--------------------

Dywedodd y Twrnai ar gyfer y Cyngor ei fod yn gobeithio cyflwyno'r cyfansoddiad ar ei ffurf newydd gerbron cyfarfod y Cyngor ar 22^{ain} Hydref 2014. Tynnwyd y ddwy eitem ar Chwythu Chwiban a Chod Ymddygiad Swyddogion yn ôl.

10.	LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2013/14	CC71 – 2014
------------	---	--------------------

Er gwybodaeth, derbyniodd y Cyngor fanylion lwfansau a threuliau'r Aelodau ar gyfer 2013/14. Roedd gofyn i'r Cyngor gyhoeddi'r wybodaeth erbyn 30^{ain} Medi 2014. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosib cyhoeddi manylion eu presenoldeb ar-lein a dywedwyd wrthynt fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd wedi ystyried hyn ac y cytunwyd y caent eu cyhoeddi ar gyfer pob Aelod yn eu hadroddiadau blynyddol.

PENDERFYNWYD	Rheswm am y penderfyniad:
Nodi'r adroddiad.	Sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus o fewn yr amserlen ofynnol.

11.	HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR ALED DAVIES A PETER LEWIS	CC72 – 2014
------------	--	--------------------

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol:

I gefnogi'r Gymraeg, ni fydd Cyngor Sir Powys ond yn mabwysiadu enwau Cymraeg ar ddatblygiadau newydd y Cyngor.

Cynigydd y Cynghorydd Sir Aled Davies

Eilydd y Cynghorydd Sir Peter Lewis

Eglurodd y Cynghorydd Davies mai nod y cynnig hwn oedd ceisio hyrwyddo'r Gymraeg drwy fabwysiadu enwau Cymraeg yn unig ar ddatblygiadau'r Cyngor ei hun a rhoddodd yr enghraifft o'r safle i sipsiwn a theithwyr a agorwyd yn ddiweddar sef King's Meadow.

Teimlai nifer o Aelodau mai dymuniadau'r gymuned leol ddylai'r ffactor pwysicaf fod wrth ddewis enw ar gyfer datblygiad. Holodd Aelodau eraill a fyddai'r Cyngor, drwy fabwysiadu enwau Cymraeg yn unig, yn torri Deddf yr Iaith Gymraeg a oedd yn darparu ar gyfer trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir A.G. Thomas welliant, a eiliwyd yn briodol, sef gohirio ystyried y cynnig er mwyn i'r Swyddog Monitro wneud ymholiadau ynglŷn ag a fyddai'r Cyngor, drwy fabwysiadu'r cynnig, yn mynd yn groes i ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg.

Yn dilyn pleidlais

PENDERFYNWYD gohirio'r cynnig.

12.	HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR ALED DAVIES A PETER HARRIS	CC73 – 2014
-----	---	--------------------

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol:

Yn y cyfarfod diwethaf o Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), cynigiodd Grŵp Llafur Cymru y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio Llandrindod fel lleoliad ar gyfer cyfarfodydd CLILC i'r dyfodol. Mae'r Cyngor hwn yn galw ar CLILC i beidio â chefnogi unrhyw gynnis o'r fath.

Cynigydd y Cynghorydd Sir Aled Davies

Eilydd y Cynghorydd Sir Peter Harris

Eglurodd y Cynghorydd Davies ei fod yn teimlo ei bod yn bwysig bod CLILC yn parhau i gyfarfod ym Mhowys fel bod llais awdurdodau gwledig yn cael ei glywed a'i ddeall.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir D.J. Mayor y gwelliant canlynol, ac fe'i heiliwyd

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar CLILC i gefnogi parhau i ddefnyddio Powys fel lleoliad ar gyfer eu cyfarfodydd.

Yn dilyn pleidlais

PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn yn galw ar CLILC i gefnogi parhau i ddefnyddio Powys fel lleoliad ar gyfer eu cyfarfodydd.

13.	HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR ALED DAVIES A GWYNFOR THOMAS	CC74 – 2014
------------	---	--------------------

Roedd y Cyngorwyr Aled Davies a Gwynfor Thomas wedi cyflwyno'r cynnig canlynol:

Mae ffermwyr gwartheg llaeth ac eidion Powys dan bwysau aruthrol. Bu gostyngiad sylweddol ym mhris cig eidion wrth giât y fferm yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae achosion o TB yn parhau i gael effaith andwyol ar ffermydd gwartheg llaeth ac eidion. Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal treial ar y cyd ledled Powys ar ddileu TB. Ni fyddai'r treial hwn yn costio dim i Lywodraeth Cymru. Yr oll fyddai'r treial yn gofyn i Lywodraeth Cymru ei wneud yw rhoi trwydded i ffermwyr sydd wedi dioddef achos o TB. Nod y treial fyddai canfod a geid effaith ar achosion o TB ar ffermydd Powys pan roddir trwydded i fferm sy'n caniatáu i'r ffermwr reoli'r boblogaeth moch daear ar y fferm honno ar yr un diwrnod ag y cyflwynir y Cyfyngiad Symud Da Byw o ganlyniad i achos o TB. Byddai Cyngor Sir Powys yn monitro llwyddiant y treial drwy gofnodi'r achosion o TB dros gyfnod y treial. Nod y treial yw gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n agos ar achosion o TB.

Cynigydd y Cynghorydd Sir Aled Davies

Eilydd y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas

Tynnodd y cynigydd a'r eilydd y cynnig yn ôl gan fod ganddynt fuddiant personol a rhagfarnllyd. Byddent yn ceisio goddefeb gan y Pwyllgor Safonau ar ran yr holl aelodau sydd â buddiant.

Gadawodd y Cynghorydd Sir R.I. George y cyfarfod.

14.	HYSBYSIAD O GYNNIG – CYNGHORWYR SIR DAVID PRICE A WILLIAM POWELL	CC75 – 2014
------------	---	--------------------

Trafod y Cyngor y cynnig a ganlyn:

Deiseb gan Gyngor Cymuned Cilmeri yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfoethogi, gwella a hyrwyddo cofeb Llywelyn yw'r canlynol. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru.

"Oherwydd pwysigrwydd cenedlaethol ein Cofeb i Dywysog Llywelyn rydym ni, Cymuned Cilmeri, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i: - Gosod byrddau arwyddion i ddangos lleoliad, gan gynnwys arwydd brown ag eicon safle brwydr, i ddynodi pwysigrwydd hanesyddol ein pentref, ar yr A483 wrth y ddwy brif fynedfa oddi ar y briffordd i'r pentref; - Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, Cyngor Cymuned Cilmeri a CADW er mwyn helpu i gynnal y gofeb enwog, fel y gall ymwelwyr fwynhau ein hamwynder hanesyddol cenedlaethol mewn amgylchedd diogel a gweddus; - Helpu i ganfod adnoddau i weithredu, yn raddol, Gynllun Dehongli Lloyd Brown (Ionawr 2013), a gomisiynwyd gan CADW. Gwybodaeth Ychwanegol: Mae'r cynllun dehongli yn tynnu sylw at y ffaith mai Llywelyn oedd Tywysog brodorol olaf Cymru i farw mewn brwydr, gan nodi diwedd gwirioneddol llinach bwerus Gwynedd, digwyddiad a chwaraeodd ran bwysig i feithrin ymdeimlad o genedligrwydd a hunaniaeth Gymreig. "

Rydym yn gofyn i Gyngor Sir Powys gefnogi'r ddeiseb hon.

Cynigydd y Cynghorydd Sir David Price

Eilydd y Cynghorydd Sir William Powell

Wrth gyflwyno'r cynnig, diolchodd y Cynghorydd Price i William Powell AC am godi'r mater hwn yn y Cynulliad Cenedlaethol ac i'r Deilydd Portffolio Adfywio a Chynllunio ac i'r Swyddog Twristiaeth am eu cefnogaeth. Dywedodd fod yna e-ddeiseb a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Gweinidog yn Sioe Frenhinol Cymru ac anogodd ei gyd-aelodau i'w llofnodi a thynnu sylw eu cymunedau ati. Siaradodd y Cynghorydd Sir G.P. Vaughan i eilio'r cynnig yn absenoldeb y Cynghorydd W.D. Powell.

PENDERFYNWYD cefnogi'r ddeiseb.

15.	CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD	CC76 – 2014
------------	--	--------------------

15.1 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

A all y deilydd portffolio sy'n gyfrifol am fynwentydd gadarnhau y caiff pob opsiwn ei bwyso a'i fesur er mwyn dod o hyd i fan addas i ymestyn mynwent y Gelli Gandryll cyn i unrhyw gynlluniau gael eu rhoi ar waith. Mae pryderon yn cael eu codi nad yw pob opsiwn posib wedi'i ystyried yn llawn mewn modd amserol.

Mae Swyddogion y Cyngor wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o ymestyn Mynwent y Gelli Gandryll er 2007 pan gyflwynwyd adroddiad i Fwrdd y Cyngor yn argymhell y canlynol:

- 5. Rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor i ymestyn y fynwent*
- 6. Rhoi cymeradwyaeth i gyd-drafod gyda thirfeddiannwr lleoli i brynu tir cyfagos a oedd mewn perchnogaeth breifat.*

7. *Rhoi cymeradwyaeth i'r elw o werthu Adeilad y Fynwent gael ei ddefnyddio i ariannu'r datblygiad.*
8. *Atal yr arfer o brynu beddi ymlaen llaw.*

Dechreuodd trafodaethau gyda pherchennog y tir i'r de-ddwyrain o'r fynwent i brynu arwynebedd o 1.672 erw. Parhaodd y trafodaethau tan 2008 pryd dywedodd asiant y tîrfeddiannwr fod ei gleient yn amharod i werthu a'i fod yn barod i aros nes bod y tir yn cyrraedd ei werth datblygu llawn.

Ar y pryd, roedd y tir y tu allan i'r terfyn datblygu ac yn dir amaethyddol. Mae hyn yn dal yn wir heddiw.

Roedd tir cyfagos sy'n eiddo i'r Cyngor yn y maes chwarae wedi cael ei ystyried o'r blaen, ond ar y pryd ni wnaed dim cynnydd pellach gyda'r cynnig oherwydd yr ystyriwyd y gallai rhannau o'r maes chwarae ffurfio rhan o gynllun mwy a oedd yn cynnwys adleoli Ysgol Gynradd y Gelli Gandryll a defnyddiau eraill.

PENDERFYNODD Cabinet y Cyngor beidio â bwrw ymlaen â'r datblygiad ar y 19^{eg} Mawrth, 2013.

Cafodd Adeilad y Fynwent ei werthu ar y 23^{ain} Ionawr 2014. Fodd bynnag, erbyn hynny roedd y Cyngor wedi penderfynu na fyddai derbyniadau cyfalaf yn cael eu cysylltu â phrosiectau penodol. O'r herwydd, roedd yn rhaid gwneud cais am gyllid ar gyfer y prosiect, a chafodd £100,000 ei neilltuo ar gyfer y datblygiad.

O ystyried penderfyniad y Cabinet, cafodd y posibilrwydd o ddefnyddio rhan o'r maes chwarae cyfagos sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys ei ail-archwilio. Byddai hyn yn golygu ystyried symud y sgwâr criced presennol i ganiatáu i'r tir barhau i gael ei ddefnyddio gan y clwb criced.

Cyfarfu swyddogion i ddechrau gyda'r Cyng Ratcliffe i drafod y cynnig ar 15^{fed} Mai, 2014. Yn y cyfarfod, cytunwyd y byddai Swyddogion wedyn yn cyfarfod gyda'r Clwb Criced a'r Cyngor Tref.

Cyfarfu'r swyddogion â chynrychiolydd y Clwb Criced ar y 22^{ain} Mai 2014 a'r Cyngor Tref ar 2^{il} Mehefin 2014 i drafod y cynnig ac i ofyn am eu barn yn ysgrifenedig.

Ni dderbyniwyd ymateb gan y Cyngor Tref tan y 24^{ain} Mehefin 2014. Ni chafwyd ymateb oddi wrth y Clwb Criced hyd yma, er i nodyn atgoffa gael ei anfon ar y 18^{fed} Mehefin.

Gellid cysylltu â thîrfeddiannwyr lleol yn yr ardal ond cyn gwneud hynny mae'n bwysig ystyried y canlynol:

- 6) *Yn dibynnu ar y cyfraddau claddu i'r dyfodol, mae'n bosib mai cyn lleied â 2 flynedd o gapasiti claddu sydd ar ôl yn y fynwent bresennol.*
- 7) *Mae ymgynghoriad cyn-cynllunio eisoes wedi digwydd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae hwnnw'n awgrymu y byddai defnyddio'r maes chwarae i ymestyn y fynwent yn dderbyniol yn amodol ar ystyriaethau perthnasol eraill.*
- 8) *Byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth cynllunio ar unrhyw dir a nodir ar gyfer datblygu'r estyniad. Un rhagofyniad i'r caniatâd cynllunio fyddai cynnal asesiad o ddŵr daear ar y safle; mae hwn yn debygol o gymryd*

12 mis i'w gwblhau. Os rhoddir caniatâd cynllunio, bydd yn cymryd ychydig o fisoedd ychwanegol i ddatblygu seilwaith y safle.

9) Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r gost ychwanegol o brynu tir preifat ar gyfer y datblygiad.

10) Mewn unrhyw drafodaethau i brynu tir, byddai'n rhaid i'r Cyngor gynnal profion i bennu pa mor addas yw'r tir i'w ddefnyddio fel mynwent.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe am y posibilrwydd o golli maes chwarae, cadarnhaodd y Deilydd Portffolio y byddai'n ystyried pob opsiwn posib gan gynnwys cysylltu â'r tiffeddianwyr cyfagos unwaith eto.

15.2 Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

A all yr arweinydd diweddarau'r cyngor ar y rhaglen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ar drosglwyddo asedau i gynghorau tref a chymuned? Mae'r cyngor wedi dweud eu bod yn bwriadu trosglwyddo asedau megis cyfleusterau cyhoeddus ac adeiladau chwaraeon megis ystafelloedd newid i gynghorau tref neu grwpiau chwaraeon. Yn y cyfarfod diwethaf dywedodd y deilydd portffolio Cyfleusterau cyhoeddus "Rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion bod angen inni gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned o ddiwedd mis Mai – Mehefin ac yr wyf yn aros am ddyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd hynny a manylion gyda phwy." Hyd yma, ni chysylltwyd â Chyngor Tref y Gelli a gan nad yw'r cyngor tref yn cyfarfod tan fis Medi oherwydd gwyliau'r haf nid yw hyn yn gadael digon o amser i'r cyngor bennu cyllidebau ac ymgynghori â'r gymuned.

Mae gan yr Awdurdod bolisi sy'n amlinellu ein dull o ddelio â Throsglwyddo Asedau Cymunedol (CAT). Gall CAT gael ei ysgogi gan Gyngor Sir Powys neu unrhyw grŵp cymunedol, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, ar eiddo lle mae CSP yn barod i ystyried y trywydd hwn. Fel rhan o'r broses byddai'r Grŵp yn cwblhau Datganiad o Ddiddordeb ac os caiff ei gymeradwyo, Achos Busnes llawn. Mae hyn yn ofynnol i ddangos bod y fenter gymunedol yn ofynnol a'i bod yn gynaliadwy. Mae pob cais CAT lle argymhellir cymeradwyo'r Achos Busnes, yn mynd drwy'r Cabinet. Nid oes rhaglen ar wahân ar gyfer trosglwyddiadau Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned, gyda phob Gwasanaeth yn ystyried y dewis hwn fel rhan o'i agenda foderneiddio, gan ddefnyddio'r Polisi Asedau Corfforaethol ac Eiddo Corfforaethol i'w harwain a'u cynghori.

O ran y sefyllfa gyda chyfleusterau cyhoeddus mae'r Deilydd Portffolio i fod i gyflwyno adroddiad diweddar gerbron y Cabinet yn fuan. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried y ffordd orau o symud ymlaen gan ystyried yr ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar fil iechyd cyhoeddus a'r potensial ar gyfer cydweithredu ehangach gyda chynghorau tref a chymuned.

Y Gwasanaeth Hamdden sy'n delio â lleiniau ac adeiladau chwaraeon ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt lle mae'r cyfleusterau hyn wedi cael eu

hamlygu ar gyfer eu trosglwyddo. Mae taenlen wedi'i hatodi sy'n dangos y sefyllfa bresennol mewn perthynas â cheisiadau CAT llwyddiannus neu geisiadau a argymhellir.

O safbwynt ceisio trosglwyddo asedau ardaloedd chwaraeon awyr agored ac adeiladau cysylltiedig, anfonwyd llythyrau i Gynghorau Tref perthnasol ar 9^{fed} Rhagfyr 2013 a 6^{ed} Mawrth 2014 yn dilyn llythyron cynharach yn 2013. Mae Swyddogion Hamdden Awyr Agored yn parhau i geisio cael cyfarfodydd gyda Chynghorau Tref, ac maent yn annog Clybiau i wneud yr un fath, er mwyn sicrhau deialog.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chyngor Tref Talgarth ar 28^{ain} Chwefror 2014 a Chyngor Tref Ystradgynlais ar 3^{ydd} Gorffennaf 2014, ac mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Chyngor Tref y Gelli Gandryll ar gyfer 7^{fed} Gorffennaf 2014. Mae'r aelod lleol hefyd wedi gwahodd Cyngor Tref Crughywel i fynychu cyfarfod gyda chlybiau chwaraeon lleol ar 14^{eg} Mai 2014. Mae nifer o gyfarfodydd hefyd wedi eu cynnal gyda Chyngor Tref y Drenewydd a chlybiau chwaraeon cysylltiedig, gyda chyfarfod arall yn cael ei gynnal ar 7^{fed} Gorffennaf 2014.

Mae Sue Simpson, y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau, yn cymryd yr awenau dros Gyflenwi Cymunedol; a Chyswilt Cynghorau Tref a Chymuned. Rhan o'r rôl fydd canfod y rhwystrau y mae cymunedau'n eu hwynebu wrth geisio cymryd y cyfrifoldeb dros gyfleusterau/gwasanaethau.

Gofynnodd y Cynghorydd Ratcliffe yn ei gwestiwn atodol am gynlluniau'r Cyngor i ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned gan eu bod yn aros am benderfyniad y Cabinet ar gyfleusterau cyhoeddus fel y gallant bennu eu cyllidebau. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 29 Gorffennaf ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gwrdd â Chynghorau Tref a Chymuned yn fuan wedyn. Hysbyswyd y Cyngor hefyd fod tîm o swyddogion yn cael ei sefydlu i gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned.

15.3 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

A all y Deilydd Portffolio Priffyrdd, ddarparu nifer yr hawliadau yn erbyn y cyngor am ddifrod oherwydd tyllau yn y ffordd a difrod oherwydd draeniau i gerbydau'r cyhoedd dros y 2 flynedd diwethaf. Os gwelwch yn dda a all y gost i'r cyngor gael ei chynnwys a hefyd y nifer a gafodd eu gwrthod gan yr awdurdod?

Dyma nifer yr hawliadau ar gyfer y cyfnod 1^{af} Gorffennaf 2012 i 1^{af} Gorffennaf 2014:

	Nifer	Canran	Gwerth £	Sylw
<i>Hawliadau a gafwyd</i>	191	-----	-----	
<i>Hawliadau wedi'u setlo</i>	13	7%	£4,229.91	
<i>Hawliadau a wrthodwyd</i>	110	57%	-----	
<i>Hawliadau ar agor</i>	68	36%	£121,818.57	<i>Amcangyfrif</i>


O safbwynt difrod oherwydd draeniau, tybir bod hyn yn ymwneud ag achosion o ddifrod o ganlyniad i gerbydau'n taro gorchuddion tyllau archwilio, cwterydd diffygiol ayb. yn hytrach na hawliadau sy'n deillio o lifogydd ar y briffordd. Ni chofnodir yr hawliadau hyn fel categori ar wahân. Bydd rhai wedi'u cynnwys fel tyllau archwilio mewn ffyrdd e.e. lle mae'r tarmac wedi malu o amgylch y ffrâm. Caiff rhai eraill eu dosbarthu fel diffygion cyffredinol ar y priffyrdd neu broblemau draenio oherwydd llifogydd.

Gall prosesu ceisiadau gymryd amser ac felly bydd bob amser nifer uchel o geisiadau ar agor ar unrhyw adeg benodol. Bydd rhai o'r rhain yn geisiadau didrafferth tra bydd eraill yn hawliadau dadleuol, tymor hwy. Yn gyffredinol rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno o fewn tair blynedd er, ar gyfer plant, nid yw'r cyfnod hwn yn dechrau nes eu bod yn 18 mlwydd oed. Gall hawl, felly, ddod i law hyd at 21 mlynedd ar ôl y digwyddiad. Mae hyn yn annhebygol, fodd bynnag, gyda hawliadau sy'n ymwneud â difrod tyllau yn y ffordd.

Y gwerth sydd wedi ei setlo yw'r cyfanswm a dalwyd i hawlwyr. Mae'r gwerth yn erbyn hawliadau sydd ar agor yn seiliedig ar naill ai'r swm a hawlir neu asesiad o werth tebygol y setliad. Nid yw hwn yn asesiad o'r hawliadau sy'n debygol o gael eu talu.

Yn ogystal â chostau unrhyw hawliadau sydd wedi'u setlo ceir hefyd gostau staff ar gyfer delio â'r hawliad. Ni chaff y costau hyn eu cofnodi ar wahân. Dan delerau ac amodau ein polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r yswiriwr hysbysu'r Aseswyr Colledion o bob hawliad neu hawliad posib cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib er mwyn delio â'n hawliadau. Codir ffioedd sylfaenol ar gyfer y rhain, sef £105 am ddifrod i eiddo a £255 am hawliadau anafiadau personol.

Mae'r duedd dros y pum mlynedd diwethaf i'w gweld isod.



Sylwer: mae ffigur 2014 yn seiliedig ar hawliadau'r 6 mis cyntaf

Ni chafwyd cwestiwn atodol.

15.4 Cwestiwn i'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Gary Price

Faint o incwm mae Cyngor Sir Powys wedi'i gael ers cyflwyno'r sachau gwastraff gardd oren?

2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	Total
£5,995.06	£3,746.63	£4,175.44	£3,731.11	£2,594.05	£3,839.70	£6,487.67	£30,569.66

Ni chafwyd amser i ymchwilio i'r ffigurau cyn 2007.

Mae'n bwysig nodi nad oedd codi incwm erioed yn fwriad i'r cynllun. Opsiwn yn niffyg dewis arall ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynd â'u gwastraff gardd i Safle Ailgylchu Cymunedol neu i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ydyw. Bwriad y gost yw perswadio trigolion i ddefnyddio'r opsiynau eraill (gan gynnwys compostio yn y cartref) oherwydd bod y bagiau hyn yn anffodus yn cael eu casglu gyda'r gwastraff gweddilliol ac felly yn cael eu tirlenwi.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price, dywedodd y Cynghorydd Thomas na allai gytuno ei fod yn gost ddiangen i'r rheini sy'n methu â mynd â'u gwastraff i Safle Ailgylchu Cymunedol neu Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref gan fod rhaid annog pobl i beidio â rhoi gwastraff mewn safleoedd tirlenwi.

15.5 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Eiddo ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Gary Price

A all yr Aelod Portffolio roi i mi fanylion yr holl adeiladau a brydlesir gan Gyngor Sir Powys lle mae'r lesddeiliaid yn derbyn taliad blynyddol gan Gyngor Sir Powys? Gan gynnwys y swm a dalwyd am y brydles a'r taliad blynyddol a delir.

Esboniodd y Deilydd Portffolio fod yr ateb i'r cwestiwn hwn yn dal i gael ei lunio ac y byddai ar gael i Aelodau yn ddiweddarach.

15.6 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Gary Price

A all y Deilydd Portffolio ddarparu i mi niferoedd y staff ym mhob cyfarwyddiaeth sydd newydd roi'r gorau i weithio gyda CSP drwy gyfrwng y cynllun diswyddo gwirfoddol diweddar?

Oddi wrth ddata a gymerwyd oddi ar system Trent a'u cysoni gyda chronfa ddata diswyddo gwirfoddol yr adran Adnoddau Dynol, mae cyfanswm o 290 o weithwyr wedi gadael cyflogaeth y Cyngor eleni drwy gyfrwng y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol. Dyma ddadansoddiad o'r ffigurau;

Cyfarwyddiaeth Adnoddau - 41 o weithwyr

Cyfarwyddiaeth Pobl - 113 o weithwyr

Cyfarwyddiaeth Lleoedd - 67 o weithwyr

Ysgolion - 53 o weithwyr

Cyfarwyddiaeth Newid a

Llywodraethu - 16 o weithwyr

Mae yna hefyd 23 o weithwyr sydd wedi cymryd gostyngiad gwirfoddol yn eu horiau gweithio drwy gyfrwng y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol.

Roedd cwestiwn atodol y Cynghorydd Price yn ymwneud â'r cyfanswm a dalwyd i'r 290 o weithwyr a adawodd y gyflogaeth drwy'r Cynllun Diswyddo Gwirfoddol. Dywedodd y Deilydd Portffolio nad oedd y wybodaeth honno ganddo wrth law a theimlai nad oedd y cwestiwn atodol yn perthyn i'r cwestiwn gwreiddiol.

15.7 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Gary Price

A all yr Aelod Portffolio roi i mi niferoedd y staff fesul cyfarwyddiaeth sydd naill ai wedi cael eu hailgyflogi ar gontractau dros dro / parhaol neu

drwy gontract dim oriau ac sydd newydd roi'r gorau i weithio gyda Chyngor Sir Powys drwy'r cynllun diswyddo gwirfoddol diweddar?

Hyd at 2^{il} Mehefin 2014 roedd cyfanswm o 7 o gyn-weithwyr wedi eu dyndi fel rhai oedd wedi'u cynnwys ar system Trent ac a oedd wedi gorffen drwy ddiswyddo gwirfoddol ac yna wedi dychwelyd i weithio i'r Cyngor mewn rolau gwahanol. Rydym hefyd yn ymwybodol y ceir nifer fach o gyn-weithwyr nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn gan eu bod yn dal i fynd drwy naill ai broses benodi neu'n disgwyl i gael eu cynnwys ar system Trent. Mae pob un ond 2 o'r gweithwyr sy'n dychwelyd ac sydd wedi'u cynnwys yn system Trent ar hyn o bryd yn dychwelyd ar gontractau dim oriau. Mae'r 2 weithiwr nad ydynt yn cael eu cyflogi ar gontractau dim oriau wedi dychwelyd i wahanol swyddi sydd ar gyflog is ac ar oriau rhan amser. Ceir dadansoddiad isod;

<i>Cyfarwyddiaeth Adnoddau</i>	<i>- 0 gweithwyr</i>
<i>Cyfarwyddiaeth Pobl</i>	<i>- 1 gweithiwr contract dim oriau</i>
<i>Cyfarwyddiaeth Lleoedd</i>	<i>- 4 o weithwyr 2 gontract dim oriau</i>
<i>Ysgolion</i>	<i>- 0 gweithwyr</i>
<i>Cyfarwyddiaeth Newid a</i>	
<i>Llywodraethu</i>	<i>- 2 weithiwr contractau dim oriau</i>

Nid yw polisi Diswyddo Gwirfoddol y Cyngor yn darparu unrhyw gyfyngiadau ar gyn-weithwyr rhag dychwelyd i weithio i'r Cyngor mewn rolau eraill heblaw am y cyfyngiad 28 diwrnod a nodir yn y Gorchymyn Addasu. Mae'n bosib na fydd unrhyw weithiwr sy'n dychwelyd i weithio i'r Cyngor neu'n dechrau swydd arall addas cyn pen 28 diwrnod gyda darpariaeth cyflogwr o fewn y Gorchymyn Addasu yn gymwys i gael tâl diswyddo.

Mae pob cyn-weithiwr yn gymwys i wneud cais yn y ffordd arferol am unrhyw swyddi sy'n dod ar gael gyda'r Cyngor.

Dadansoddiad manwl

<i>Swydd Bresennol</i>	<i>Swydd Flaenorol</i>
<i>Cymhorthydd Gofal Arlais</i>	<i>Cymhorthydd Gofal Cartref</i>
<i>Swyddog Cyswllt (Lefel 2)</i>	<i>Uwch Gyngorydd Gwasanaethau i Gwsmeriaid</i>
<i>Swyddog Cyswllt (Lefel 2)</i>	<i>Uwch Gyngorydd Gwasanaethau i Gwsmeriaid</i>
<i>Glanhauwr Llanw</i>	<i>Cymhorthydd Gofal Cartref</i>

<i>Glanhawr Symudol</i>	<i>Cymhorthydd Economaidd</i>	<i>Adfywio</i>
<i>Cymhorthydd Llyfrgell</i>	<i>Clerc Cynllunio</i>	
<i>Hyfforddwr Sgiliau Beicio</i>	<i>Uwch Gyngorydd Iechyd a Diogelwch</i>	

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cyngorydd Price, dywedodd y Deilydd Portffolio fod yr holl benodiadau, cyn belled ag y gwyddai ef, wedi'u gwneud gan ddilyn y drefn Adnoddau Dynol gywir ond os oedd gan y Cyngorydd Price wybodaeth i'r gwrthwyneb y dylai ryddhau'r wybodaeth honno.

15.8 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio TGCh gan y Cyngorydd Sir Gary Price

Yn unol â'r e-bost a anfonwyd allan gan y Ddesg Gwasanaethau TGCh ar 15.05.14 a all yr Aelod Portffolio egluro pam y canfuwyd bod 200 o gyfrifiaduron ac oddeutu 100 o ddarnau o offer TGCh ddim yn cael eu defnyddio yn dilyn yr archwiliad diweddar?

Anfonwyd yr e-bost canlynol at bob aelod o staff ar 15.05.14:

Annwyl Gydweithwyr

Yn dilyn archwiliad diweddar, rydym wedi sylweddoli bod tua 200 o gyfrifiaduron heb gael eu defnyddio dros y 3 mis diwethaf. Yn ogystal, gyda'r diswyddiadau staff diweddar, mae yna oddeutu 100 o ddarnau eraill o offer nad ydynt ychwaith yn cael eu defnyddio.

O ystyried yr hinsawdd bresennol, ni allwn gyfiawnhau i gyfrifiaduron a gliniaduron newydd a'r trwyddedau cysylltiedig barhau i gael eu prynu, pan fo gennym gynifer o ddyfeisiau a thrwyddedau na chânt eu defnyddio. Felly rydym yn annog pob gwasanaeth i ddychwelyd unrhyw offer sydd ganddynt os nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Gallwn gynnig dau ddewis i reolwyr sydd â chyfrifiaduron neu liniaduron, nad ydynt, am unrhyw reswm, yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

- 3. Os oes gennych unrhyw gyfrifiaduron/gliniaduron sbâr a'ch bod yn rhagweld na fydd arnoch eu hangen i'r dyfodol, fe wnawn drosglwyddo £60 i bennaeth eich gwasanaeth am gyfrifiadur a £110 am liniadur.*

Sylwer: Os byddwch wedyn yn penderfynu bod arnoch angen cyfrifiadur/gliniadur ychwanegol, yna bydd yn rhaid i chi ddychwelyd i ddechrau'r cylch adnewyddu ar gyfer y ddyfais honno.

- 4. Os nad oes arnoch angen y cyfrifiadur/gliniadur yn awr, ond eich bod yn teimlo efallai y byddwch yn y dyfodol - gallwn gymryd yr offer yn ôl i gael ei ddefnyddio yn rhywle eraill, ond gallwch wedyn gadw 'slot' gwag. Er enghraifft, os bydd arnoch angen cyfrifiadur/gliniadur arall cyn*

pen 6 mis, byddwn yn rhoi dyfais ichi ac ni fydd unrhyw daliadau ychwanegol i'w talu ar ben yr hyn yr ydych eisoes yn ei dalu.

Sylwer: Os wnaethoch ddychwelyd cyfrifiadur, byddwch yn cael cyfrifiadur tebyg yn ôl – er na fydd o'r un model o reidrwydd. Os wnaethoch ddychwelyd cyfrifiadur, ni allwch gael gliniadur yn ôl yn ei le.

E-bostiwch ictservicedesk@powys.gov.uk gyda'r manylion canlynol am unrhyw ddyfeisiau yr hoffech eu dychwelyd:

5. Rhif ased neu Dag Gwasanaethu pob dyfais – nodwch ai cyfrifiadur ynteu gliniadur ydyw
6. Lleoliad, enw cyswllt ac enw'r aelod staff sy'n gweithredu fel unigolyn cyswllt
7. Pa opsiwn ydych chi'n ei ddewis o'r uchod? Opsiwn 1 – ad-dalu eich arian, ynteu Opsiwn 2 – cadw slot gwag.
8. Nodwch pwy yw Pennaeth eich gwasanaeth

Yn ogystal, yn y dyfodol agos byddwn hefyd yn cynnal archwiliad llawn o asedau TGCh ar draws y sir. Bydd unrhyw ddyfeisiau y deunw o hyd iddynt, y mae'n amlwg nad ydynt yn cael eu defnyddio, yn cael eu cymryd yn ôl i gael eu hail-ddefnyddio yn rhywle arall."

Fel rhan o'r meddalwedd a ddefnyddir yn y Sir, mae Gwasanaethau Gwybodaeth (GG) yn gallu canfod pryd wnaeth cyfrifiadur gysylltu â'r rhwydwaith corfforaethol ddiwethaf. Os nad yw cyfrifiadur wedi cysylltu â'r rhwydwaith corfforaethol ers mwy na 3 mis mae'n cael ei roi mewn "cwarantîn" yn awtomatig a chaiff unrhyw fynediad pellach â'r rhwydwaith ei atal dros dro.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (2013/2014) gwelwyd bod gennym dros 200 o gyfrifiaduron a oedd wedi'u tagio fel rhai mewn cwarantîn. Yn ogystal, fe wnaeth GG gynnal ymarfer i ganfod offer a allai gael eu rhyddhau oddi wrth y staff hynny a oedd yn gadael yr awdurdod o dan gynlluniau diswyddo gwirfoddol. Fe wnaeth hyn ganfod 100 darn arall o gyfarpar posib.

Yn dilyn y neges e-bost ychydig iawn o ddarnau o offer a ddychwelwyd i GG (llai na 25). Er mwyn helpu i ganfod ac ailddosbarthu unrhyw asedau nad ydynt yn cael eu defnyddio, mae eiddo corfforaethol yn awr yn cynnal archwiliad llawn o'r holl leoliadau ac yn casglu'r wybodaeth am asedau er mwyn i GG allu dadansoddi'r data ymhellach. Unwaith byddwn wedi dadansoddi'r data hwn, byddwn yn targedu meysydd gwasanaeth i adfer yr asedau hyn.

Cytunodd yr Aelod Portffolio gyda chwestiwn atodol y Cynghorydd Price ei bod yn annerbyniol i gynifer o ddarnau o offer TGCh fodoli heb allu bwrw cyfrif ohonynt a dywedodd y byddai ffi'n cael ei chodi ar adrannau am offer na ellir bwrw cyfrif ohonynt.

15.9 Roedd cwestiwn 15.9 wedi cael ei adfer a chafodd ei drafod fel eitem gyfrinachol ar ddiwedd y cyfarfod.

15.10 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Gary Price

A all y Deilydd Portffolio roi i'r aelodau reswm pam wnaeth y cyn Bennaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu roi'r gorau i'w swydd gyda Chyngor Sir Powys?

Penderfynodd Richard Hobbs ymddeol ar ôl 39 mlynedd o wasanaeth ffyddlon i'r Cyngor. Cafodd hyn ei gyfleu wrth yr Aelodau ar y pryd ac mae copi o'r ohebiaeth i'w gweld isod

"Annwyl Gydweithwyr

Hoffwn eich hysbysu fod y Pennaeth Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu; Richard Hobbs wedi ymddeol o'r Cyngor ar ôl 39 mlynedd o wasanaeth.

Bydd colled ar ôl Richard ymysg Aelodau a Staff ar draws y sefydliad; roedd llawer ohonynt yn ei adnabod yn bersonol. Bydd yn gadael ar ei ôl etifeddiaeth o ymroddiad, gonestrwydd a gwaith caled sydd wedi bod o fudd mawr i'r Cyngor dros flynyddoedd lawer o wasanaeth.

*Paul Griffiths
Cyfarwyddwr Strategol"*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.11 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cyflogaeth gan y Cynghorydd Sir Gary Price

Faint o staff a gyflogir gan Gyngor Sir Powys sy'n derbyn cyfradd yr awr sy'n is na'r Cyflog Byw?

Faint yn ychwanegol y byddai'n ei gostio i Gyngor Sir Powys pe byddai'n talu Cyflog Byw i'r gweithwyr hynny?

Cyfanswm Nifer y Swyddi 1099

Cyfanswm Nifer y Bobl 923

Byddai cyfanswm y gost o weithredu'r Cyflog Byw, yn seiliedig ar Gyflogres Mehefin 2014 yn oddeutu £402k (gan gynnwys argostau). Byddai cyfran fawr o'r gweithwyr (70%) yng nghategoriâu gwaith Glanhawyr a Chynorthwyrwyr Cegin Cyffredinol.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price, dywedodd y Deilydd Portffolio y byddai'n rhaid i unrhyw gostau ychwanegol ddod o'r cyllidebau presennol.

15.12 Cwestiwn gan yr Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Peter Lewis

Drwy gynrychiolydd Llanfyllin ar Fforwm Trefaldwyn ar ein cyngor tref rwyf yn deall bod Powys yn ceisio datganoli cyfrifoldeb am rai gwasanaethau i 'glystyrau' o gynghorau cymuned. Pa wasanaethau sydd dan sylw a pham na chafodd mater mor bwysig â hwn ei roi gerbron y cyngor llawn i'w drafod?

Mae'r angen i ddod o hyd i arbedion o £40m dros y tair blynedd nesaf, ynghyd ag amcangyfrif o £30m pellach rhwng 2017 a 2020 yn golygu bod angen i'r Cyngor ystyried sut y gall gwasanaethau gael eu hailfodelu er mwyn eu diogelu yn hytrach na'u torri.

Un opsiwn y mae angen ei ystyried yw dulliau eraill o gyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Dyma oedd dan sylw yn y seminar a drefnwyd i Aelodau ar 23^{ain} Mehefin. Clywodd y cyfarfod gan gyfranogwyr mewn nifer o bartneriaethau llwyddiannus gan gynnwys prosiectau gofal cymdeithasol a hamdden.

Mae copïau o'r cyflwyniadau a nodiadau o'r diwrnod ar gael i unrhyw aelod a fethodd y digwyddiad ar wefan y cyngor yn

<http://intranet.powys.gov.uk/index.php?id=5911&L=0>

Bydd y themâu hyn yn cael eu harchwilio ymhellach mewn cyfres o ddiwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned dros yr haf a'r hydref. Bydd cyfraniad a chefnogaeth Aelodau etholedig yn y digwyddiadau hyn yn allweddol i helpu i siapio cyflenwi cymunedol.

Yn ogystal, mae'r Cabinet yn ddiweddar wedi cymeradwyo siarter rhwng y Cyngor Sir a Chyngor Tref y Trallwng. Mae'r Siarter yn nodi'r egwyddorion sy'n galluogi'r ddau awdurdod i weithio gyda'i gilydd, ond nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar ddirprwyo cyfrifoldeb am wasanaethau ar hyn o bryd.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Lewis am ddatganoli gwasanaethau, esboniodd yr Arweinydd fod angen i'r Cyngor weithio'n agos gyda Chynghorau Tref a Chymuned a'u cyrff cynrychioliadol, gan gynnwys Un Llais Cymru, i helpu i gyflenwi gwasanaethau ar adeg o doriadau parhaus yn y gyllideb.

15.13 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Priffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i hyrwyddo a chefnogi beicio ar draws y Sir?

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Cyngor Sir Powys wedi llwyddo i ddenu llawer iawn o gyllid allanol i adeiladu llwybrau cerdded a beicio newydd, ac mae'r sir wedi derbyn dros filiwn o bunnoedd. Adeiladwyd llwybrau ym mhob rhan o'r sir ac maent yn amrywio o'r cyswllt cymunedol cymharol fach ond poblogaidd iawn yn Llanllŷr i'r llwybr hir ar lan yr afon yn y Drenewydd. Mae'r Cyngor wedi adeiladu llwybrau newydd sbon yn Ystradgynlais a Machynlleth, ac wedi datblygu cysylltiad di-draffig rhwng y Drenewydd a'r Trallwng ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd. Mae taflenni hyrwyddo ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'r llwybrau hyn.

Rydym wedi llwyddo i ddenu ras feicio Taith Prydain i Bowys dros y tair blynedd diwethaf a byddwn unwaith eto'n cynnal dechrau ras yn y Drenewydd eleni. Mae digwyddiadau uchel eu proffil o'r fath yn hyrwyddo beicio a bydd yn adeiladu ar y presenoldeb sydd gan ras y Tour de France yn y DU ar hyn o bryd.

Mae'r ddeddfwriaeth ddiweddar, Deddf Teithio Llesol (Cymru), yn rhoi dyletswyddau statudol newydd ar awdurdodau lleol o fis Medi 2014 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio er mwyn iddynt fwynhau'r manteision iechyd a chefnogi economïau lleol. Bydd gofyn i'r Cyngor Sir fapio'r rhwydwaith llwybrau yn eu hardal sy'n ddiogel ac yn addas ar gyfer cerdded a beicio i gyrraedd y gwaith, gwasanaethau addysg a chyfleusterau eraill. Disgwylir iddo hefyd -

- *nodi a mapio'r gwelliannau a fyddai'n ofynnol i greu rhwydwaith cwbl integredig ar gyfer cerdded a beicio;*
- *cyflwyno rhwydwaith gwell drwy sicrhau llwybrau a chyfleusterau "teithio llesol" newydd bob blwyddyn;*
- *cymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth cerdded a beicio fel rhan o gynlluniau ffyrdd newydd ac mewn datblygiadau newydd.*

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn cefnogi beicio drwy gyfrwng nifer o gynlluniau:

Prydlesu Beiciau i Staff

Mae Cynllun Prydlesu Beicio i'r Gwaith "aberthu cyflog" ar waith ar gyfer gweithwyr. Mae'r cynllun yn niwtral o ran cost ac yn galluogi'r Cyngor i hyrwyddo siwrneiau iachach i'r gwaith a lleihau llygredd amgylcheddol. Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ers pedair blynedd a, drwy ddarparwr a ddewiswyd gan y Cyngor - Cycle Solutions - yn ddiweddar mae wedi sefydlu partneriaeth gyda siopau lleol. Mae hyn yn caniatáu i siopau beiciau lleol gyflenwi beiciau'n uniongyrchol i'r gweithwyr, gan helpu i gadw'r £ ym Mhowys. O'r 54 o feiciau a brynwyd ym Mawrth - aeth 50% o'r gwerthiannau i werthwyr lleol.

Cymhellion Teithio Staff

Mae lwfans beicio o 20c y filltir wedi cael ei gyflwyno i annog pobl i wneud siwrneiau busnes byr ac effeithlon ar feic gan arbed costau teithio.

Mae rhaglen dreigl wedi gwella cyfleusterau parcio beiciau yn adeiladau'r Cyngor ar draws y sir ac mae gan y rhan fwyaf yn awr lefydd addas i storio beiciau, loceri personol ac, mewn rhai lleoliadau, gawodydd.

Datblygiadau newydd

Mae'n rhaid i bob datblygiad arfaethedig dros faint arbennig yn awr gynnwys Cynllun Teithio ar gyfer y Safle i fodloni gofynion Cynllunio a rhaid i'r Cynlluniau hyn hyrwyddo beicio a darparu cyfleusterau addas. Mae datblygiadau ysgolion newydd, fel y gwelwyd yn ddiweddar yn ardal Ystradgynlais, hefyd yn gorfod mabwysiadu Cynllun Teithio sy'n dangos ymrwymiad i gynyddu beicio ymysg disgyblion a staff. Mae'n bosib y bydd gan ysgolion eraill Gynlluniau Teithio wedi'u sefydlu hefyd, yn benodol lle mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno fel un o amodau cyllid 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' neu 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau'. Un o amcanion Llywodraeth Cymru yw bod Cynlluniau Teithio yn cael eu cyflwyno i bob ysgol.

Bwrdd Gwasanaethau Lleol (LSB) a phartneriaid eraill

Mae Cynllun Teithio Corfforaethol y Cyngor Sir wedi ennill safon 'Aur' Consortiwm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac mae'r Cyngor yn parhau i ddylanwadu ar Awdurdodau Lleol eraill a'u helpu i gyflwyno cynlluniau 'Beicio i'r Gwaith'.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ennill y Safon Iechyd Gorfforaethol ar lefel 'Platinwm' a'r Cynllun Teithio Corfforaethol oedd yr astudiaeth achos ar gyfer y wobr hon; roedd darpariaeth a chynlluniau beicio yn chwarae rhan allweddol yn yr astudiaeth honno.

Rhaglen Hyfforddiant Beicio - Ysgolion Cynradd

Mae'r Uned Diogelwch ar y Ffyrdd yn cynnig cyfle i bob plentyn gwblhau hyfforddiant beicio cyn iddynt adael yr Ysgol Gynradd. Mae'r cwrs yn seiliedig ar y rhaglen RoSPA "Righttrack" a chaiff ei gyflwyno dros gyfnod o 6 wythnos. Caiff tua 1,300 o blant eu hyfforddi bob blwyddyn a lle bynnag y bo modd bydd hwn yn hyfforddiant ar y ffordd.

'Ar Eich Beic' - Hyfforddi Oedolion

Mae'r Uned Diogelwch ar y Ffyrdd newydd lansio cynllun newydd 'Ar Eich Beic' a fwriedir ar gyfer oedolion ac mae'n dilyn y rhaglen Hyfforddiant Beicio'r Safonau Cenedlaethol. Mae'r cwrs yn rhoi awr o asesiad rhad ac am ddim gan hyfforddwr cymwysedig ac mae ar gael i unrhyw un ni waeth beth yw eu gallu. Y bwriad yw cynyddu hyder a sgiliau beicwyr ac annog mwy o bobl i deithio mewn modd cynaliadwy a defnyddio mwy ar rwydweithiau beicio cynyddol y sir.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance am yr hyn y gallai'r Cyngor ei wneud i leihau ofn traffig ar y ffyrdd ymysg beicwyr, cydnabu'r Aelod

Portffolio waith yr uned diogelwch ar y ffyrdd ac eglurodd bod y Cyngor yn gwneud cais am grantiau i gysylltu llwybrau beicio.

15.14 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cyflogaeth gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

A all y Cyngor ddarparu datganiad am ei ddefnydd o contractau dim oriau, gan gynnwys nifer y swyddi a chanran y gweithlu a gyflogir ar contractau dim oriau ar hyn o bryd?

O safbwynt Gwasanaethau Cyflogi, nid yw'r gweithwyr yn cael eu cosbi mewn unrhyw ffordd ac rydym yn cydnabod eu hawliau statudol i gyfnodau salwch a gwyliau. Yn wir, er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2000, mae'r holl hawliau gwyliau yn seiliedig ar yr hawliau gwyliau galwedigaethol a ddarperir gan CSP; mae hyn yn fwy na'r hawl gwyliau statudol gofynnol. Mae gan staff hawl i hawlio tâl gwyliau a gronnwyd ar gyfer yr holl oriau sylfaenol a weithiwyd, a byddent yn cael eu hasesu am eu hawl i daliadau salwch pan fo nhw'n mynd dros y trothwyon enillion statudol.

Cyfanswm nifer y swyddi/contractau = 2047

Canran y Swyddi = 20%

Gofynnodd y Cynghorydd Dorrance yn ei gwestiwn atodol am y manteision a gafodd y Cyngor o gyflogi pobl ar contractau dim oriau. Dywedodd y Deilydd Portffolio y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 29^{ain} Gorffennaf.

15.15 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Addysg a Gwasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

A all yr Aelod Cabinet ddweud wrth y Cyngor am unrhyw gynlluniau i ddatblygu Dechrau'n Deg ym Mhowys?

Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y bydd Dechrau'n Deg yn parhau ar ôl 2016.

Unwaith y bydd y wybodaeth hon gennym, byddwn yn edrych ar y mynegai amddifadedd lluosog a'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn yr ardaloedd y nodwyd bod ganddynt fwy o amddifadedd, ac yn croesgyfeirio gyda data Plant mewn Angen i sicrhau y bydd y gwasanaeth yn cyflenwi yn yr ardal lle mae'r angen mwyaf ym Mhowys.

Gofynnodd y Cynghorydd Dorrance yn ei gwestiwn atodol pa drafodaethau yr oedd y Cyngor yn eu cael gyda Llywodraeth Cymru ac ystyried yr ansicrwydd ynghylch dyfodol y cynllun. Esboniodd y Deilydd Portffolio y byddai'r Adolygiad Blynyddoedd Cynnar cryfhau sylfaen dystiolaeth y Cyngor mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Roedd angen i'r Cyngor hefyd edrych ar ei atebion ei hun ym Mhowys, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid yn y

trydydd sector ac ym maes iechyd er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sydd ei angen.

15.16 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau i Gwsmeriaid gan y Cynghorydd Sir Russell George

A yw'r Aelod cabinet yn credu bod yr awdurdod lleol yn ymateb yn ddigonol ac o fewn ei amserlenni ei hun i gwynion a wneir gan y cyhoedd?

Mae gan y cyngor system gwyno ffurfiol a ddefnyddir i gofnodi, rheoli ac ymateb i gwynion a gyflwynir i'r cyngor. Er bod y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth effeithlon ar gyfer y mwyafrif helaeth o gwynion rydym yn ymwybodol o achosion lle mae perfformiad wedi disgyn yn is na'r safonau a fynnwn. Mae'r Tîm Rheoli wedi trafod sut mae'r cyngor yn ymdrin â chwynion ac yn cychwyn adolygiad o'n trefniadau cwyno i wella perfformiad yn gyffredinol.

Roedd manylion am amseroedd ymateb wedi'u ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd. Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.17 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Russell George

O ran gwasanaethau gofal cartref:

A yw'r Aelod Cabinet yn credu bod oedolion agored i niwed yn cael gofal digonol gan y cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau gofal cartref ar ran yr awdurdod?

Ein prif flaenoriaeth bob amser fu gofal a lles ein dinasyddion, a rhoddwyd contractau i'r darparwyr newydd ar sail eu gallu i gyflenwi gofal o safon sy'n rhoi anghenion y defnyddwyr gwasanaethau yn gyntaf. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ein darparwyr newydd, ac yn sicrhau nad yw'r gofal a gyflenwir nid yn unig yn ddigonol, ond o'r safon orau. Rydym wedi cael rhai heriau gyda chyflenwi mewn rhannau penodol o'r sir fel yr hysbyswyd aelodau yn flaenorol; mae'r Tîm Diogelu Oedolion, y timau Gwaith Cymdeithasol a'r Darparwr ynghyd â'r Tîm Prosiect wedi gweithio'n galed i ddelio â'r holl bryderon ynglŷn â gwendidau ac mae pob sefyllfa unigol wedi cael sylw.

A all yr Aelod Cabinet roi manylion am yr adolygiad annibynnol y bwriedir ei gynnal i ymchwilio i beth aeth o'i le wrth drosglwyddo gwasanaeth gofal cartref i oedolion y Cyngor?

Mae'r swyddogion wrthi'n datblygu briff drafft mewn perthynas â chomisïynu adolygiad annibynnol. Byddwn yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ein defnyddwyr gwasanaethau, aelodau craffu,

Llywodraeth Cymru ac AGGCC ar ddatblygiad yr adolygiad a'r ffrâm amser. Byddwn hefyd yn parhau i wella ein gwasanaethau yn seiliedig ar y gwersi rydym eisoes wedi'u dysgu.

A yw'r Aelod Cabinet yn hyderus bod y trefniadau TUPE mewn perthynas â staff sy'n trosglwyddo oddi wrth ddarparwyr blaenorol i Reach ac Abacare yn cael eu dilyn yn gywir?

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, fe wnaeth y cyngor a'n partneriaid newydd hysbysu'r holl ddarparwyr ymadawol o drefniadau TUPE. Yn ystod recriwtio, cafodd hysbysebion hefyd eu rhoi mewn papurau newydd lleol yn hysbysu staff o'u hawliau TUPE gan gynnwys y contractau dim oriau a'r contractau 16 awr oedd yn cael eu cynnig. Rydym yn ymwybodol y bu rhai darparwyr ymadawol yn hwyr yn hysbysu eu staff o drefniadau TUPE i ddarparwyr newydd, a bod ein darparwyr newydd wedi ceisio'u cyngor cyfreithiol eu hunain i'r perwyl hwn. Mae ein darparwyr newydd wedi ymrwmo i sicrhau eu bod yn recriwtio digon o staff i fodloni eu rhwymedigaethau cytundebol ac y bydd pob aelod staff yn mynd drwy gyfnod sefydlu a hyfforddi cadarn fel y gall staff weithio i'r safon uchaf er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol ac o ansawdd.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.18 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Prifffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir Russell George

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r awdurdod yn cynnal gorfodaeth?

Cytunodd y cyngor ar 5^{ed} Mawrth 2014, "fod y Cyngor yn cynnal adolygiad llawn o bwerau gorfodi sifil drwy gyfrwng y Pwyllgor Craffu perthnasol a hefyd yn ymestyn y bwerau sy'n ymwneud â baw cŵn i Brif Swyddogion Gweithredol er mwyn mynd i'r afael â phroblem baw cŵn ar draws y sir". Os gwelwch yn dda a all yr aelod cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda hyn?

(a) Mae'r Awdurdod wedi parhau i weithredu ei bwerau gorfodi drwy gyfrwng y Tîm Iechyd yr Amgylchedd gyda chefnogaeth ymarferol gan staff LE (glanhau, arwyddion, biniau) pan fo angen.

(b) Mae'r broblem baw cŵn wedi cael ei hystyried gan:

- Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn ar 13^{eg} Mawrth 2014 pryd nodwyd bwriad y Cyngor Sir ochr yn ochr ag ymateb i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Un o ganlyniadau'r cyfarfod oedd sefydlu gweithgor, sy'n cynnwys tri Aelod, i ddechrau'r adolygiad. [Cyng. Viola Evans (Arweinydd), Arwel Jones a Dai Jones];*

- *y Gweithgor Gorfodaeth Baw Cŵn a gyfarfu ar 26^{ain} Mawrth 2014 a chafodd yr holl Aelodau eu hysbysu o ganlyniadau'r cyfarfod hwnnw, yn bennaf asesu maint y problemau lleol ac a oedd adroddiadau'n cael eu gwneud;*
- *y Cyd-grŵp Llywio i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion - Pwyllgorau Craffu, Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd, a fu'n ystyried adborth gan y Gweithgor ar 16^{eg} Mai 2014 gan benderfynu y dylai cylch gwaith y Grŵp ymestyn i ystyried effaith rheolaethau baw cŵn ar y gweithgarwch gorfodi presennol;*
- *y Gweithgor Gorfodaeth Baw Cŵn a gyfarfu ar 4^{ydd} Mehefin 2014 i gael cyflwyniad gan Cadwch Gymru'n Daclus ac i adolygu materion a oedd yn codi o argymhellion y Grŵp Llywio;*
- *Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn ar 5^{ed} Mehefin 2014 pan ystyriodd [eitem 8.3] adroddiad cynnydd.*

Os gwelwch yn dda a all yr Aelod Cabinet roi gwybod i mi a yw'r awdurdod wedi cysylltu â Heddlu Dyfed Powys i drafod y posibilrwydd bod Swyddogion Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael awdurdod i orfodi Hysbysiadau Cosb Benodedig ac os felly, beth oedd canlyniad y drafodaeth hon?

Nododd yr adroddiad cynnydd diweddar fod yr heddlu yn awyddus i'r mater hwn gael ei drin yn gydradd ar draws ardal yr heddlu. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno y dylid cysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu i gefnogi bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael dyletswyddau gorfodi.

Yr wyf yn ymwybodol bod awdurdodau lleol eraill wedi mynd i gontract gyda sefydliadau allanol i orfodi Hysbysiadau Cosb Benodedig. Dywedir wrthyf y gall y gost i'r Cyngor Sir gael ei negyddu gan yr incwm a dderbynnir o ddirwyon Hysbysiadau Cosb Benodedig. A yw'r Aelod Cabinet wedi ystyried mynd i gontract gyda sefydliadau allanol i orfodi Hysbysiadau Cosb Benodedig am broblemau baw cŵn a sbwriel?

Gallai sefydliadau allanol ymgymryd â gorfodaeth er na ddangoswyd y byddai'r incwm tebygol yn ddigonol i dalu'r costau gorfodi. Bydd y Gweithgor yn sicr o ystyried yr agwedd hon fel rhan o'u hadolygiad.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.19 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Cyllid gan y Cynghorydd Sir Gary Price

Faint sydd wedi cael ei ddyrannu yn y gyllideb eleni ar gyfer Cynllun Swyddogaethau Cydredol Sir Drefaldwyn?

Y swm a glustnodwyd ar gyfer cynllun Swyddogaethau Cydredol Sir Drefaldwyn yn 2014-15 yw £95,250.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price, a fyddai cyllideb Cynllun Swyddogaethau Cydredol Sir Drefaldwyn yn cael ei chwtdogi i arbed arian, ac os na fyddai, a fyddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno i Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed, dywedodd y Deilydd Portffolio y byddai'r gyllideb hon yn cael ei chwtdogi i arbed arian, fel y byddai'r cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau yn Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed.

15.20 Cwestiwn i'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Aled Davies.

Pa opsiynau, gan gynnwys y gost, y mae Cyngor Sir Powys yn eu cynnig i neuaddau pentref ar gyfer gwaredu eu sbwriel?

Mae'r ddeddfwriaeth (Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012) yn datgan, os yw adeilad fel neuadd bentref yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, maent yn cael eu dosbarthu fel cartref ac yn derbyn y gwasanaeth casglu safonol (gan gynnwys cyfyngiadau ar wastraff gweddilliol). Fodd bynnag, os yw neuaddau pentref yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau, ac mae llawer ohonynt yn cael, cânt eu dosbarthu fel eiddo masnachol a chodir ffi arnynt fel unrhyw eiddo masnachol arall. Mae'r ffioedd gwastraff masnach ac ailgylchu presennol wedi eu hatodi.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Davies, dywedodd yr Arweinydd nad oedd yn gallu rhoi ymrwymiad na fyddai cynnydd pellach yn y costau.

15.21 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Cyfathrebu a TGCh gan y Cynghorydd Sir Kathryn Silk

Yn dilyn fy nghwestiwn i'r Cyngor ar 30^{ain} Ebrill, a all yr Aelod Cabinet Cyfathrebu a TGCh roi manylion am faint o achosion o dorri'r ddeddf diogelu data a ddigwyddodd yn yr Adran Gynllunio yn ystod 2013/14?

Yn y flwyddyn ariannol 2013/2014 cafwyd dau achos o dorri rheolau data personol yn Adran Gynllunio'r Cyngor; ar ôl i ddata personol gael ei ddatgelu ar wefan y Cyngor.

Nid ystyriwyd bod y data personol a ddatgelwyd yn ddata sensitif dan delerau Deddf Diogelu Data 1998.

Ymchwiliwyd i'r ddau achos, a darparwyd hyfforddiant ar ddeddfwriaeth gwybodaeth a oedd yn benodol i'r gwasanaethau i Reolwyr yn y Gyfarwyddiaeth Adfywio, Eiddo a Chomisiynu.

Ar y ddau achlysur cafodd y gwersi a ddysgwyd eu hymgorffori yn y gwaith o ddatblygu prosesau newydd ar gyfer dynodi a thrin data personol pan gânt eu rhoi ar dudalennau gwe'r Cyngor.

Mae Cyngor Sir Powys yn parhau i ddatblygu a gweithredu arferion llywodraethu gwybodaeth cadarn ac mae'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn dylanwadu ar ein datblygiad pellach.

Un elfen allweddol o'r arferion llywodraethu gwybodaeth yw'r hyfforddiant gorfodol mewn Gwarchod Data, TGCh, a Diogelwch Gwybodaeth i'r holl staff sy'n prosesu data personol fel rhan o'u dyletswyddau. Mae'r ffigurau hyfforddi presennol yn 99%.

Mae dealltwriaeth staff o'u cyfrifoldebau tuag at drin data personol i'w gweld yn y modd y cydymffurfiant â'r prosesau cadarn sydd ar waith i nodi a rheoli digwyddiadau diogelwch gwybodaeth.

Yn gynharach eleni, pennodd archwilwyr ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod Cyngor Sir Powys yn dangos lefel resymol o sicrwydd bod prosesau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf diogelu data.

Yn seiliedig ar yr arferion llywodraethu gwybodaeth sydd ar waith a'r rheini sy'n parhau i gael eu datblygu, gellid ystyried bod y Cyngor yn mynd ati i ddatblygu systemau i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth gwybodaeth, gan gynnwys adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth a'u rheoli.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.22 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Cyfathrebu a TGCh gan y Cynghorydd Sir Kathryn Silk

A all yr Aelod Cabinet Cyfathrebu a TGCh roi manylion am bolisi'r Cyngor ar ymateb i ohebiaeth. Pa ganran o'r ohebiaeth a atebwyd o fewn y cyfnod penodol yn ystod y cyfnod diwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer?

Mae manylion polisi'r Cyngor ar ymateb i ohebiaeth wedi'u nodi yn yr ateb i gwestiwn y Cynghorydd Russell George.

Mae'r ystadegau ar gyfer y cyfnod 1^{af} Ebrill 2013 i 31^{ain} Mawrth 2014 wedi eu ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd.

15.23 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Tai Fforddiadwy gan y Cynghorydd Sir Kathryn Silk

A all yr Aelod Cabinet Cynllunio roi manylion am faint o unedau tai fforddiadwy sydd wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer pob blwyddyn er 2011? Pa ganran o gyfanswm y tai a gymeradwywyd y mae hyn yn ei gynrychioli?


Yn anffodus, nid yw'n bosib cyflenwi'r ffigurau hyn fel y gofynnwyd. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r Bwrdd Gweithredu Gwella Rheoli Datblygu, mae'r gwasanaeth Rheoli Datblygu yn ddiweddar wedi gosod y meddalwedd Northgate ICT i gofnodi'r wybodaeth hon. Mae'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy (SDI), a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2013, yn galluogi'r wybodaeth hon i gael ei darparu yn y dyfodol.

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr unedau Tai Fforddiadwy a gymeradwywyd o'i gymharu â chyfanswm yr unedau tai a gymeradwywyd ar gyfer pedwar mis diwethaf blwyddyn ariannol 13/14 (Rhagfyr-Mawrth) pan gymeradwywyd 14 o unedau fforddiadwy allan o 139.

Byddai'r gwasanaeth Rheoli Datblygu yn gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani drwy fynd drwy bob Cais Cynllunio lle mae tai fforddiadwy wedi cael eu Cymeradwyo, ar gyfer pob un o'r blynnyddoedd dan sylw. Er enghraifft, byddai'r ffigur ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf (12/13) yn golygu asesu oddeutu 1,013 o geisiadau, gan gyfrif nifer yr unedau o Anheddau Fforddiadwy a gymeradwywyd a chymharu hyn â chyfanswm y tai a gafodd eu cymeradwyo yn y cyfnod hwnnw.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol imi atgoffa'r Aelodau am adroddiad diweddar a gyflwynwyd i'r Bartneriaeth Tai Strategol gyda'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r rhaglen Cyflenwi Tai Fforddiadwy: -

Rhagamcan: Gan ein bod bellach wedi derbyn adroddiadau gan y Cymdeithasau Tai sy'n bartneriaid â ni, mae rhagamcan o ddyddiadau cwblhau yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i ni: erbyn Awst 2014 bydd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn cwblhau 45 o gartrefi yn y Trallwng a 5 yn yr Ystog a bydd Melin Homes yn cwblhau 4 yn Nhalgarth a 10 yn Llangynidr. Bydd y rhain yn unig yn rhoi ffigur o 258 o dai fforddiadwy a ddarperir yn y cyfnod Un Cynllun, sydd 29% yn uwch na'r targed. Dylid nodi hefyd y gwelwn, yn ystod y flwyddyn nesaf, bron yn sicr, 45 arall o gartrefi gwag y sector preifat yn cael eu rhentu ar lefelau fforddiadwy; ac yn olaf bydd y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol barhaus yn arwain at gwblhau 229 pellach rhwng nawr a diwedd blwyddyn ariannol 2015/16.



15.24 Cwestiwn i'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Gwastraff gan y Cynghorydd Sir David Meredith

O ystyried y cynnydd mewn tipio anghyfreithlon mewn Cymunedau a allwn ni gael gwybod faint o bobl sydd wedi cael eu dal ac, o'r rheini, faint sydd wedi cael eu herlyn?

Mae Gwasanaethau Gwastraff yn gyffredinol yn delio â mân achosion o dipio anghyfreithlon, er enghraifft o amgylch Safleoedd Ailgylchu Cymunedol ac wrth ymyl Mannau Casglu Cymunol. Pan allwn ni ddod o hyd i dystiolaeth, er enghraifft cyfeiriad ar amlen, rydym yn ysgrifennu at y troseddwr honedig dan Adran 33 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Yn 2013/14, anfonwyd 60 o lythyrau o'r fath, ond ni wnaeth dim un arwain at erlyniad.

Mae'r adran Iechyd yr Amgylchedd yn delio â digwyddiadau ar dir preifat ond yn yr un modd, nid ydynt wedi erlyn neb. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n delio â digwyddiadau mawr.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Meredith ynghylch a oedd yn amser dechrau rhoi hysbysiadau cosb, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n siarad â'r swyddogion ynghylch a oes angen diwygio'r polisi.

15.25 Cwestiwn i'r Deiliaid Portffolio Adnoddau Dynol a Chyllid gan y Cynghorydd Sir David Meredith

Nawr bod Gwerthuso Swyddi wedi cael ei roi ar waith, a oedd y gronfa ariannol a neilltuwyd i'w weithredu yn ddigon i dalu cyfanswm y gost ynteu a wnaeth rhai o wasanaethau'r Awdurdod ddioddef oherwydd nad oedd digon o arian wedi'i neilltuo at y diben hwn? Os felly'r oedd hi, sut dewiswyd y gwasanaethau hynny?

Roedd y gyllideb a neilltuwyd ar gyfer Gwerthuso Swyddi yn ddigonol (cafodd y strwythur graddio ei gynllunio o fewn y cyfyngiadau cyllidebol). Fodd bynnag, dywedwyd yn glir wrth wasanaethau o ddechrau cyntaf y prosiect GS fod angen iddynt sicrhau bod y disgrifiadau rôl a gyflwynwyd i'w gwerthuso mor gywir â phosib gan mai'r gwasanaethau fyddai'n gorfod talu unrhyw gostau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag apeliadau llwyddiannus, gan na chlustnodwyd arian ar gyfer hyn yn y gyllideb. Roedd costau ychwanegol apeliadau llwyddiannus yn tua £800k.

Yn ei gwestiwn atodol holodd y Cynghorydd Meredith sut oedd y strwythur graddio wedi ei gynllunio o fewn cyfyngiadau cyllidebol pan oedd disgrifiadau swyddi'n cael eu hasesu. Dywedwyd wrth y Cyngor bod GS wedi cael ei gyflawni o fewn y gyllideb a drwy gytundeb ar y cyd â'r undebau llafur.

15.26 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Addysg a Gwasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir David Meredith

Ac ystyried y ffaith nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn atal rhieni rhag parhau i dynnu eu plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor, beth mae'r Awdurdod yn ei wneud i ddelio â'r mater hwn gydag ESTYN a Llywodraeth Cymru?

Fel aelod o Gonsortiw De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW), mae'r rhanbarth yn datblygu strategaeth ar gyfer gwella presenoldeb. Mae hyn yn cynnwys polisi ar hysbysiadau cosb benodedig fydd yn cael ei ddsbarthu i ysgolion yn y rhanbarth yn Nhyrnor yr Hydref.

Croesawodd y Cynghorydd Meredith yr ymateb a gofynnodd i Benaethiaid gael eu cefnogi. Dywedodd y Deilydd Portffolio fod polisi ERW yn gadarn a bod angen herio teuluoedd a oedd yn mynd â'u plant allan o'r ysgol.

15.27 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

A all y deilydd portffolio Adnoddau Dynol friffio'r cyngor ar y sefyllfa o safbwynt swyddi yng Nghyngor Sir Powys yn dilyn yr adroddiad gan BBC News dan y pennawd *Toriadau mawr i swyddi os bydd cyllidebau'n dal i grebachu, rhybuddia'r cyngor* pan ddywedodd arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru os ydyn ni'n wynebu gostyngiad ar y raddfa hon, y pwysau mwyaf ar gostau, yn anffodus, ydy gweithwyr.

Mae'r cyngor wedi colli 215 o swyddi yn y gyllideb gyfredol ac mae newidiadau pellach ar y gweill. O ystyried y gofyn i arbed tua £70m erbyn diwedd y degawd, mae'n anochel y bydd y maint y gweithlu yn parhau i leihau. Fodd bynnag, rydym yn chwilio am arbedion eraill megis adolygu gwariant trydydd partion er mwyn lleihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen a staff.

Gwrthododd y Deilydd Portffolio ateb cwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe ar drafodaethau gyda'r undebau llafur gan nad oedd yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cyfarfod agored.

15.28 Cwestiwn i'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Gwastraff gan y Cynghorydd Sir David Jones

Beth yw safbwynt y cyngor ar gasglu deunyddiau ailgylchu oddi ar gwrtil eiddo domestig ers dyfodiad y cerbydau ailgylchu newydd?

Ni fu unrhyw newid yn safbwynt y Cyngor. Gofynnwn i drigolion roi eu blychau ailgylchu a'u biniau olwyn ar gwrtil eu heiddo erbyn 7:30am ar eu diwrnod casglu. Mae yna, wrth gwrs, eithriadau i hyn gyda manau casglu cymunol ac os yw'r trigolion yn rhan o'r cynllun casglu â chymorth.

Yn ei gwestiwn atodol gofynnodd y Cynghorydd Jones a oedd preswylwyr y cesglir eu gwastraff ger Cae Post wedi cael cyfarwyddiadau gwahanol. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n holi'r swyddogion am hyn.

15.29 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir David Jones

Beth yw polisi presennol y cyngor ar ail-gyflogi cyn aelodau o staff sydd wedi ymddeol? A all ef ragweld amgylchiadau lle gallent ddychwelyd?

Nid oes gan y Cyngor bolisi sy'n delio ag ail-gyflogi cyn weithwyr sydd wedi ymddeol ond mae'n archwilio gwerth a phriodoldeb cyflwyno polisi sy'n delio ag ail-gyflogi cyn weithwyr yn gyffredinol.

Ceir amgylchiadau lle byddwn yn rhagweld cyn weithiwr sydd wedi ymddeol yn cael ei ail-gyflogi gan y Cyngor. Mae'n annhebygol iawn y byddai neb yn cael ei ail-gyflogi i'w swydd flaenorol nac ar yr un telerau. Mae unigolion yn fwy tebygol o gael eu hail-gyflogi i swyddi ac ar delerau sy'n fwy addas ar gyfer ffordd o fyw'r sawl wedi ymddeol. Cydnabyddir, wrth gwrs, mai trigolion Powys yw'r cyn weithwyr hyn fel arfer a'u bod yn cyfrannu at ei heconomi. Maent hefyd yn debygol o feddu ar sgiliau a phrofiad sy'n werthfawr i'r Cyngor ac a all hefyd fod yn brin yn y farchnad gyflogaeth leol.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones, i ystyried cyflwyno polisi i atal aelodau staff sydd wedi ymddeol rhag cael eu hail-gyflogi, dywedodd y Deilydd Portffolio y byddai gwneud hynny'n achosi anawsterau penodol i ysgolion gan fod llawer ohonynt yn cyflogi staff sydd wedi ymddeol fel athrawon llanw.

15.30 Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd David Jones

A allai'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adnewyddu'r system gyngres ar gyfer y cyngor?

Gofynnwyd i swyddogion edrych ar y gost o ddiweddarau'r meicroffonau yn y Siambr ac yn Ystafell Bwyllgora A yn Neuadd y Sir, yn y Siambr yn Neuadd Maldwyn ac yn yr Ystafell Bwyllgor yn Neuadd Brycheiniog. Mae'r Cabinet hefyd wedi gofyn i'r Pwyllgor Craffu edrych ar y gofynion ar gyfer system newydd.

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones ynglŷn â pham y gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu edrych ar hyn pan oedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r gyllideb, esboniodd yr Arweinydd fod hwn yn gynllun drud iawn ac roedd am fod yn siŵr fod pob aelod yn hapus gyda'r system a gynigiwyd.

PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail y byddent yn clywed gwybodaeth sydd wedi'i eithrio dan gategori 1 o Orchymyn Awdurdodau Lleol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007).

15.9 Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Gary Price

Roedd yr ateb i'r cwestiwn wedi'i gyflwyno. (Mae copi wedi'i ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd). Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**L.R.E. DAVIES
CADEIRYDD**